Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Brompton Lodge Limited**

**54 Ffordd Rhos**
**Llandrillo-yn-Rhos**
**Bae Colwyn**
**LL28 4RY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/10/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Brompton Lodge limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Preswyl Brompton Lodge Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Ionawr 2024 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |

## Crynodeb

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu da a phrosesau sicrhau ansawdd ar waith i wneud yn siwr bod y bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant dymunol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gweithio'n agos gyda'r rheolwr ac yn ymweld yn rheolaidd fel rhan o drefniadau goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r darparwr yn gwerthfawrogi adborth gan y staff, y bobl a'u perthnasau ac mae'n defnyddio hyn i ysgogi datblygiadau yn y gwasanaeth. Caiff y staff newydd eu recriwtio'n ddiogel, ac mae'r staff yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr drwy oruchwylio ac arfarniadau blynyddol.

Mae'r cartref yn gynnes, yn groesawgar, mewn cyflwr da ac wedi'i addurno mewn ffordd gartrefol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi byw yma. Maent yn teimlo'n ddiogel a'u bod cael eu cefnogi gan y staff gofal. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod cynlluniau manwl wedi'u personoli ar gyfer gofal y bobl yn cynnwys asesiadau risg priodol a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd â mewnbwn gan y bobl a'u teuluoedd. Gall y bobl ddewis treulio amser mewn amrywiaeth o ardaloedd cymunedol neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Mae'r staff gofal yn garedig, yn sylwgar ac wedi'u hyfforddi'n dda. Maent yn trin y bobl ag urddas a pharch ac yn adnabod y bobl yn dda.

## Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol y bobl a gall y bobl wneud penderfyniadau am eu gofal o ddydd i ddydd. Mae'r awyrgylch yn gartrefol sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i'r bobl. Mae'r bobl yn rhyngweithio'n ystyrlon ag eraill ac yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau y maent wedi'u meithrin. Mae gan y gweithwyr gofal ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl. Maent yn annog y bobl i gynnal deiet iach ac amrywiol, ac yn gweithredu ar unrhyw bryderon ynghylch iechyd. Mae systemau meddyginiaeth diogel yn sicrhau bod y bobl yn cael y meddyginiaethau sydd wedi'u rhagnodi ar eu cyfer yn gyson.

Caiff anghenion gofal a chymorth unigol y bobl eu cydnabod a'u deall. Mae'r amrywiaeth o asesiadau a chynlluniau personol yn arwain y gweithwyr gofal i hyrwyddo llesiant corfforol a meddyliol y bobl. Caiff y rhain eu diweddaru yn dilyn newidiadau i anghenion y bobl ac unrhyw gyngor newydd a roddir gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Mae cofnodion dyddiol yn dangos bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, yn unol â'u cynlluniau personol. Mae systemau effeithiol ar gyfer cofnodi a monitro gofal y bobl. Mae'r bobl yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r staff a gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo safonau hylendid a rheoli heintiau da i leihau'r risgiau o groes-heintio.

Mae'r bobl yn byw mewn llety glân a chyfforddus. Mae ganddynt fynediad at ardd, lolfa fawr ac ardal fwyta. Mae'r ystafelloedd cymunedol a phreifat yn gartrefol ac wedi'u dodrefnu'n dda yn gyffredinol. Caiff cyfarpar ei wasanaethu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mae mesurau diogelwch amgylcheddol ar waith a chaiff gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd eu cynnal. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar iechyd a diogelwch. Mae'r unigolyn cyfrifol yn asesu'r safle yn ystod ymweliadau ac yn sicrhau y caiff gwaith ei gynnal fel y bo angen.

Mae systemau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Mae'r staff yn weladwy ac yn talu sylw i anghenion y bobl. Mae cyfarpar yn eu lle, yn ôl yr angen, i hyrwyddo diogelwch a chysur y bobl. Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â diogelu oedolion sy'n agored i niwed. Maent yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau'n lleoliad ac yn gwybod sut i gael gafael arnynt. Mae'r staff gofal yn ymateb yn brydlon i alwadau'r bobl am gymorth. Maent yn derbyn hyfforddiant gorfodol ac arbenigol sy'n eu helpu yn eu rolau. Mae'r prosesau recriwtio staff yn gadarn. Mae'r gwasanaeth yn dilyn Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau a wynebir gan y bobl yn gyfreithlon ac er eu lles pennaf.

## Gofal a Chymorth

Caiff anghenion y bobl eu hasesu'n ofalus cyn iddynt symud i mewn i'r cartref. Caiff gwybodaeth gan wasanaethau iechyd a gweithwyr proffesiynol ei hadolygu fel rhan o'r broses hon. Caiff y bobl eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu cynlluniau personol, sy'n amlinellu eu dewisiadau, eu harferion a'u nodau dymunol yn fanwl. Mae'r asesiadau risg yn nodi'r strategaethau ar gyfer rheoli risgiau i ddiogelwch a llesiant y bobl. Maent yn helpu i arwain y staff gofal wrth fodloni'r holl agweddau ar ofal unigolyn yn ddiogel. Mae darparwr y gwasanaeth wedi buddsoddi mewn system gofal electronig ac mae'r holl gofnodion gofal wedi'u storio yn y system. Mae'r staff gofal yn weladwy yn yr ardaloedd cymunedol a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn derbyn gwiriadau rheolaidd pan fyddant yn treulio amser yn eu hystafelloedd. Mae cofnodion electronig yn cadarnhau bod y gweithwyr gofal yn cwblhau gwiriadau diogelwch yn rheolaidd.

Mae'r bobl yn derbyn gofal a chymorth o ansawdd da gan dîm o staff gofal sy'n gyfarwydd â'u hanghenion a'u dymuniadau unigol. Gwelsom y bobl yn rhyngweithio'n dda â'r staff gofal a'r preswylwyr eraill. Roedd llawer o chwerthin a sgwrsio hwyliog a helpodd i greu awyrgylch hamddenol a chartrefol. Mae'r staff gofal yn parchu'r bobl fel unigolion ac yn eu cefnogi i gyflawni eu nodau fel y nodir yn eu cynlluniau personol. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol.

Mae'r bobl yn rhyngweithio'n rheolaidd ac mewn ffordd ystyrlon â'r staff gofal. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn eu cartref; gwelsom nhw'n ymlacio yn eu hystafelloedd eu hunain neu'n gwenu ac yn chwerthin wrth iddynt dreulio amser gydag eraill. Gall y bobl gael gafael ar glychau galw, a gwelsom y staff gofal yn mynd at y bobl yn gyflym pan fyddant yn cael eu galw. Mae'r swyddog gweithgareddau yn frwdfrydig ac yn annog y bobl i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Dywedodd un unigolyn wrthym faint mae wedi mwynhau'r sesiwn celf a chrefft diweddar a dangosodd ei waith i ni. Caiff cludweithiau sydd wedi cael eu creu gan y preswylwyr eu harddangos yn falch ar y coridor ac mae rhai wedi cael eu rhoi i'r ysgol leol. Gwelsom sawl gwaith crefft y mae'r bobl wedi'u creu o gwmpas y cartref yn eu hystafelloedd.

Mae'r bobl yn canmol ansawdd ac amrywiaeth y bwyd a'r diod sydd ar gael. Mae'r holl brydau bwyd yn brydau cartref, gan ddefnyddio cynhwysion lleol. Mae'r bobl yn cael lleisio eu barn am y prydau a ddarperir gan fod y bwydlenni yn cael eu trafod â'r preswylwyr. Gwelsom y bobl yn bwyta mewn amrywiaeth o lefydd, fel y dymunant a rhoddir cymorth priodol pan fo angen. Lle y bo'n briodol, mae'r staff gofal yn cadw cofnodion clir o'r hyn mae'r bobl yn bwyta ac yfed. Mae'r bobl yn cael profi deiet amrywiol a chytbwys ar y cyfan. Caiff pwysau'r bobl ei fonitro'n rheolaidd, ac mae'r rheolwr yn cwblhau archwiliadau misol fel y gellir gweithredu ar unrhyw bryderon am eu maeth yn gyflym.

Mae'r gwasanaeth yn storio meddyginiaethau'r bobl yn ddiogel ac yn monitro eu tymereddau storio'n ddyddiol i sicrhau eu bod yn briodol. Mae'r rheolwr yn cwblhau

archwiliadau misol o feddyginiaeth a hapwiriadau fel y gellir nodi unrhyw faterion ac ymdrin â nhw yn gyflym. Mae cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael y feddyginiaeth gywir ar yr adeg gywir.

## Yr Amgylchedd

Mae Brompton Lodge yn gartref sydd mewn cyflwr da ag addasiadau a chyfleusterau addas. Mae'r ystafelloedd cymunedol a phreifat yn fawr, yn gartrefol â dodrefn o ansawdd da.  Mae gan y cartref drefniadau addas ar gyfer storio a chael gafael ar wybodaeth gyfrinachol. Gall y bobl ddefnyddio gardd ddiogel a diddorol yn hawdd sy'n eu hysgogi. Mae llwybr amlwg yn helpu'r bobl i symud yn rhydd ac yn ddiogel o amgylch eu gardd. Gallant hefyd ymlacio yn yr ardaloedd eistedd amrywiol a mwynhau'r holl blanhigion a blodau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wrth eu bodd yn edrych allan drwy eu ffenestr a'r ffordd y maent yn helpu'r garddwr.  Gall y bobl gael gafael ar eitemau sy'n bwysig iddynt yn eu hystafelloedd unigol, y maent wedi'u personoli i raddau amrywiol.

Mae'r cartref yn hyrwyddo arferion hylendid a rheoli heintiau da. Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd diweddar o 5 (da iawn) yn 2024. Mae'r ystafelloedd preifat a chymunedol yn lân ac yn daclus, a dywedodd y bobl wrthym fod eu hystafelloedd yn cael eu glanhau yn ddyddiol. Mae'r staff domestig yn ymfalchïo yn eu gwaith a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Mae ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt sy'n gwneud eu llwyth gwaith yn haws ei reoli. Mae cyfleusterau priodol ar gyfer golchi dwylo a gwaredu gwastraff cyffredinol a chlinigol. Mae digon o gyfarpar diogelu personol ar gael, ac mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â rheoli heintiau. Roedd archwiliad rheoli heintiau allanol diweddar yn gadarnhaol iawn. Mae'r ystafell golchi dillad allanol yn drefnus ac yn daclus iawn, ac mae'r staff yn sicrhau bod eitemau glân a budr yn cael eu trin ar wahân.

Mae'r cartref yn ddiogel ac mewn cyflwr priodol. Mae'r staff yn defnyddio'r cyfarpar priodol i gadw'r bobl yn ddiogel wrth iddynt gyflawni eu trefn o ddydd i ddydd. Mae cofnodion yn cadarnhau bod y cyfarpar yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd, fel yr argymhellir. Gwelsom y staff yn ymateb i glychau galw mewn amser rhesymol, a chadarnhaodd y bobl fod y staff gofal yn ddefnyddiol iawn, ac nid oes unrhyw beth yn ormod o drafferth. Mae'r tîm rheoli yn cwblhau gwiriadau gwasanaethu bob mis i sicrhau bod y cyfarpar a'r cyfleusterau mewn cyflwr priodol. Caiff diogelwch tân ei gymryd o ddifrif. Caiff y cyfarpar diogelwch tân ei fonitro a'i wasanaethu'n rheolaidd. Mae asesiad risg tân diweddar a gwblhawyd gan gwmni allanol yn dangos nad oes angen cymryd camau gweithredu na gwneud argymhellion. Mae'r cyfarpar symud a chodi a chario hefyd wedi cael eu gwasanaethu o fewn yr amserlenni a argymhellir. Gwelsom fod pob rhan o'r cartref yn daclus, heb unrhyw beryglon.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Dywedodd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym fod y rheolwr yn hawdd mynd ato ac yn awyddus i ddatrys unrhyw faterion a allai fod ganddynt. Ceir cyfathrebu da rhwng y tîm ac mae'r gweithwyr gofal yn cael gwybod am lesiant y bobl drwy gynllun trosglwyddo dyddiol a chofnodion gofal unigol. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi a gweithredir arnynt yn briodol, ac mae amrywiaeth o archwiliadau ar waith fel cynlluniau personol, cwympiadau, pwysau, meddyginiaeth a rheoli heintiau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cwblhau adroddiad bob tri mis manwl sy'n monitro safonau'r gofal yn y gwasanaeth. Gwelsom fod camau wedi'u cymryd yn dilyn yr ymweliadau hyn i wella profiadau'r bobl. Mae adolygiad o ansawdd y gofal a gynhelir bob chwe mis diweddaraf y gwasanaeth angen mwy o wybodaeth, a chytunodd y rheolwr i ddatblygu'r adroddiad nesaf.

Mae'r gweithwyr gofal yn derbyn yr hyfforddiant a'r cymorth priodol sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau. Maent yn cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol, sy'n cynnwys symud a chodi a chario, maeth, gofal dementia a diogelu oedolion agored i niwed. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn mynd at y tîm rheoli ac yn hyderus y byddent yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Mae'r staff gofal yn cael eu goruchwylio'n ffurfiol bob tri mis sy'n eu galluogi i adlewyrchu ar eu perfformiad ac i drafod unrhyw anghenion hyfforddiant. Mae'r rheolwr yn cwrdd â'r Unigolyn Cyfrifol yn rheolaidd ond nid oes unrhyw gofnod o'u cyfarfodydd goruchwylio ffurfiol. Cawsom sicrwydd y bydd yn mynd i'r afael â hyn. Caiff cyfarfodydd staff eu cynnal yn rheolaidd sy'n rhoi'r cyfle i'r staff gofal gyfrannu at berfformiad y gwasanaeth.

Mae'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn derbyn parhad gofal da gan dîm sefydlog o staff gofal profiadol a chynhelir gwiriadau priodol i sicrhau bod y staff gofal yn addas ar gyfer eu rôl. Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu hadnewyddu yn y tair blynedd diwethaf ac mae'r gwiriadau recriwtio perthnasol wedi cael eu cwblhau cyn i'r staff newydd ddechrau eu rôl. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag anghenion a dewisiadau unigol y bobl, a'r ffordd orau o'u cefnogi. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu siarad ag unrhyw aelod o'r staff ac yn mwynhau sgyrsiau ysgafn a jôcs â nhw. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod y lefelau staffio yn briodol i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Siaradodd y staff gofal yn llawn balchder am y gwahaniaeth yr oeddent wedi'i wneud i fywydau'r bobl oherwydd y cydberthnasau cadarnhaol maent wedi'u meithrin. Roedd hyn hefyd yn amlwg o'r adborth a roddodd y bobl i ni yn ystod y dydd.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 66 | Nid oes gan y darparwr systemau a phrosesau digonol ac effeithiol ar waith er mwyn galluogi goruchwyliaeth briodol dros reolaeth, ansawdd, diogelwch, effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 29 | Mae pobl yn byw yn y cartref nad oes ganddynt alluedd meddyliol i gydsynio i'r allanfa dan glo. Dim ond ar gyfer un person y mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi cael eu cymeradwyo. Os nad oes gan bobl alluedd meddyliol i gydsynio, rhaid i'r darparwr sicrhau bod unrhyw benderfyniad i gyfyngu ar ryddid unrhyw berson yn seiliedig ar gytundeb er lles pennaf a bod awdurdod cyfreithlon ar waith. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/11/2024